



# EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig  
Collaborating for rural success



## Datblygu cadwyn gyflenwi fer ar gyfer bîff

### Beth yw cadwyn gyflenwi fer?

Mae cadwyni cyflenwi byr yn golygu bod cyn lleied o gyfryngwyr â phosibl yn rhan o'r gadwyn sy'n cysylltu'r cyflenwr a'r defnyddiwr. Mae hyn yn rhoi mwy o reolaeth i'r cynhyrchwr dros y broses gyflawn gan gynnig mynediad i gynnyrch lleol, tymhorol i'r defnyddiwr.

#### Manteision

- Cynhyrchwyr yn cyfarfod â'u cwsmeriaid
- Cwsmeriaid yn deall tarddle'r cynnyrch ac yn cael mynediad i gynnyrch tymhorol y gellir ei olrhain.
- Incwm uwch – fel arfer, mae cwsmeriaid yn barod i dalu mwy, a'r cyfan yn dod i chi

#### Anfanteision

- Angen cynllunio a rheolaeth yn ystod bob cam o'r broses
- Angen sgiliau newydd e.e. marchnata cyfryngau cymdeithasol, cigyddiaeth, gwerthu
- Buddsoddiad mewn offer, sgiliau ac amser

### Canfod eich cwsmeriaid

Mae'n rhaid wrth amser ac ymdrech i sefydlu eich bas cwsmeriaid. Gwnewch ychydig ymchwil lleol drwy ymweld â marchnadoedd ffermwyr, bwytai neu siopau fferm. Os mai bwytai o safon uchel mewn dinasoedd yw eich marchnad darged, efallai y bydd angen o leiaf un cyfryngwr arnoch (e.e. cyfanwerthwr arlwygo) yn eich cadwyn gyflenwi er mwyn cynnig mynediad i un o'r marchnadoedd yma. Ymchwiliwch i weld pa farchnadoedd fydd yn cynnig yr incwm gorau i chi.

### Datblygu brand

Bydd angen i'ch cynnyrch fod yn ddeniadol i'r llygad ac apelio at eich cwsmeriaid. Mae angen i'ch brand gyfathrebu'n glir â'ch cwsmeriaid er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod ac yn deall beth maen nhw'n ei brynu. Gallech elwa'n fawr o weithio gyda rhywun proffesiynol i gael y ddelwedd orau.

### Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth

Cofrestrwch eich busnes gyda'r swyddfa iechyd yr amgylchedd leol o leiaf 28 diwrnod cyn i chi ddechrau masnachu. Gall eich awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth bellach ynglŷn â sut i gofrestru.



Datblygwch gynllun Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP). Bydd hyn yn eich helpu i ddangos sut ydych yn rheoli'r gweithdrefnau hylendid bwyd a diogelwch o fewn eich busnes bwyd. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnig gwybodaeth bellach ynglŷn â sut mae gwneud hyn.

Mae'n rhaid i unrhyw aelod o staff sy'n ymdrin â bwyd gael ei hyfforddi ynglŷn â hylendid bwyd a diogelwch.

Mae angen i labeli a deunyddiau pecynnu eich cynnyrch bwyd fod yn addas a chywir. Gofynnwch am gyngor gan Safonau Masnach a'ch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd lleol.

### **Marchnata eich cynnyrch**

Gall y cyfryngau cymdeithasol gynnig mynediad rhad, parod i nifer fawr o gwsmeriaid posibl. O'i ddefnyddio'n effeithiol, gall fod yn ased enfawr i'ch busnes, ond mae angen amser a dealltwriaeth i wneud hynny'n dda.

Gall gwefannau ddarparu gwybodaeth gefndirol ynglŷn â'ch cynnyrch yn ogystal â chyfleoedd i greu siop ar-lein. Gall hyn gynyddu eich mynediad i gwsmeriaid ond mae'n golygu hefyd y bydd angen i chi ddatblygu deunydd pecynnu addas ar gyfer postio. Ystyriwch yn ofalus beth sy'n addas ar gyfer eich cynnyrch.

### **Gwerthu eich cynnyrch**

Penderfynwch sut yr ydych eisiau cyrraedd eich cwsmeriaid.

Mentrau gwerthu blychau cig – yn uniongyrchol i'r cwsmer. Ystyriwch sut i becynnu'r cig a sut i'w ddsbarthu.

Marchnadoedd ffermwyr – yn uniongyrchol i'r cwsmer. Crëwch stondin deniadol ac ewch ati i sgwrsio â'r cwsmeriaid. Mae pecynnu ac edrychiad y cynnyrch yn bwysig.

Siopau fferm/siop manwerthu – mae'n rhaid i chi gystadlu â chynnyrch arall tebyg felly mae brand ac edrychiad yn bwysig. Bydd y siop yn cymryd cyfran, felly er bod yr elw'n gallu bod yn llai efallai y bydd gennych fynediad i fwy o gwsmeriaid.

Cyfanwerthu – cyfleoedd ar gyfer gwerthu mewn sypiau mawr ond bydd y prisiau'n is. Yn fwy anodd ymwneud â'ch cwsmeriaid.

Gall gwerthu'n uniongyrchol i'ch cwsmeriaid fod yn hynod werth chweil o safbwynt ariannol a'r boddhad o dderbyn adborth cadarnhaol. Serch hynny, peidiwch â thanbriso'r amser sydd ei angen i gynhyrchu, marchnata a gwerthu eich cynnyrch. Gwnewch eich gwaith cartref er mwyn sicrhau mai dyma'r ffordd orau ymlaen i chi cyn buddsoddi mewn sgiliau ac offer newydd.